Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cydamcanu – Cydymdrechu

## Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau

Fersiwn 2 – Rhagfyr 2012

Mae'r Canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau statudol blaenorol sy'n deillio o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth: Strategaethau Cymunedol (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009), Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (Deddf Plant 2004, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010), a'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Deddf GIG (Cymru) 2006).

ISBN digidol 978 0 7504 8264 6
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17094

## CYNNWYS

**Cyflwyniad**

**Pennod 1: Partneriaeth ac iddi Ddiben**

**Pennod 2: Cynllunio Integredig**

***Cwestiynau Cyffredin***

**Pennod 3: Atebolrwydd Atgyfnerthedig**

**Pennod 4: Datblygu Sail Dystiolaeth Gadarn**

**Pennod 5: Egwyddorion Cynllunio Integredig**

**Atodiad A: Crynodeb o Ddeddfwriaeth**

**Atodiad B: Canllawiau Statudol – Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**

*Mae’r Rhaglen Lywodraethu hon yn fwy nag agenda i Lywodraeth Cymru. Agenda i Gymru ydyw. Rydym yn disgwyl i arweinwyr ym mhob rhan o’r sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector gydnabod yr agenda hon a’i datblygu mewn partneriaeth â ni.*

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC

Prif Weinidog Cymru

**Cyflwyniad**

Mae’r Rhaglen Lywodraethu yn nodi’r blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl yng Nghymru:

*Pobl iach sy’n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy ffyniannus ac arloesol; cymunedau mwy diogel a chydlynus, gyda lefelau is o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd cadarn lle y gwneir defnydd mwy cynaliadwy o’n hadnoddau naturiol a chymdeithas a chanddi ymdeimlad hanfodol o’i diwylliant a’i threftadaeth ei hun.*[1]

Mae’r canllawiau hyn yn nodi’r rôl sydd gan lywodraeth leol a’i phartneriaid, drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol, o ran helpu i gyflawni’r canlyniadau hyn drwy ddod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd i gynllunio, gweithio, darparu a gwella. Rydym i gyd yn cytuno, er mwyn gwneud gwahaniaeth, fod yn rhaid i ni gydweithio yn ogystal â siarad â’n gilydd. Rhaid canolbwyntio ar agenda gyffredin i wella canlyniadau, gan roi pwyslais ar flaenoriaethau, cyflymder a pherfformiad.

Yn y gorffennol, mae gwaith cynllunio mewn llywodraeth leol a’r sector iechyd yn aml wedi rhoi gormod o sylw i’r galw yn hytrach na’r angen. Mae hyn wedi arwain at ddarparu gwasanaethau adweithiol ac adferol sy’n trin problemau ar ôl iddynt godi, yn hytrach na’u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ar adeg pan fo cyllidebau’n lleihau a disgwyliadau’n codi, nid yw hyn yn gynaliadwy.

---

[1] Rhaglen Lywodraethu t.iii Gweler http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/

Ym marn Llywodraeth Cymru, y sylfaen ar gyfer symud ymlaen yn gynaliadwy yw cynllun integredig unigol ar gyfer yr ardal sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol yn glir. Mae'n credu bod rhaid i lywodraeth leol a'i phartneriaid ganolbwyntio eu hymdrechion yn gryf ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, er mwyn torri cylchoedd o ddibyniaeth ac atal canlyniadau gwael rhag parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall.

**Y ddadl dros newid**

Erbyn hyn mae gweithio mewn partneriaeth wedi ymwreiddio yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a cheir tystiolaeth dda bod cydberthnasau ymddiriedus wedi datblygu rhwng sefydliadau o ganlyniad i hyn.

Fodd bynnag, wrth ddatblygu mae'r partneriaethau lleol hyn wedi arwain at ormod o gymhlethdod a dyblygu, gan gynnwys partneriaethau ail a thrydedd haen, gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Ymhlith y rhesymau dros hyn y mae brwdfrydedd lleol dros sefydlu partneriaethau newydd i ymdrin â materion newydd ac amharodrwydd i addasu partneriaethau presennol at ddibenion newydd. Yn achos sefydliadau rhanbarthol, megis byrddau iechyd lleol a'r heddlu, mae'r costau o wasanaethu nifer mawr o bartneriaethau wedi bod yn sylweddol iawn.

Yn y Cydarolygiad o Fyrddau Lleol Diogelu Plant 2011[2] nodwyd saith ffactor allweddol sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd Byrddau Lleol Diogelu Plant, a gall y rhain fod yr un mor gymwys i bartneriaethau o bob math, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol:

- Arweinyddiaeth
- Llywodraethu ac atebolrwydd
- Cyfeiriad Strategol
- Strwythurau
- Cyllid

[2] Cydarolygiad o Fyrddau Lleol Diogelu Plant, AGGCC, 2011

- Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd
- Ymgysylltu â Dinasyddion

Mae angen symleiddio strwythurau partneriaethau lleol o dan arweiniad clir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'w gwneud yn addas at y diben, ailbennu atebolrwydd, ac ailgyfeirio staff ac adnoddau i ategu gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau integredig.

**Y Ffordd Ymlaen**

Mae cynllun integredig unigol yn ddull gweithredu llawer symlach. Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai cynllun integredig unigol ddisodli o leiaf bedwar o'r cynlluniau a strategaethau statudol presennol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (sy'n cynnwys y tair strategaeth trosedd ac anhrefn)). Bydd hyn yn ffordd o leihau cymhlethdod ac achosion o ddyblygu, ac yn rhyddhau adnoddau. Er mwyn darparu gwasanaethau'n well, rhaid i'r gwaith o ddatblygu cynllun integredig unigol a'r broses sydd i'w dilyn gan bartneriaid wrth ei lunio fod yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ganlynol:

- Rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid feddu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r canlyniadau sydd â blaenoriaeth. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer canlyniadau sydd â blaenoriaeth.
- Bydd y canlyniadau pwysicaf yn ei gwneud yn ofynnol i wahanol bartneriaid gydweithio: ni allant eu datrys wrth weithredu ar wahân i'w gilydd. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol rôl strategol o ran rhoi arweiniad cydweithredol lleol.
- Dim ond drwy fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar y gellir sicrhau gwelliannau cynaliadwy, a rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r angen nid y galw. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen gallu strategol a dadansoddol llawer cryfach, ar y lefelau corfforaethol ac amlasiantaethol, i gynnal gweithio mewn partneriaeth.

- Er mwyn cael canlyniadau gwell, bydd angen gwaith mwy strategol i gomisiynu a darparu gwasanaethau a pharodrwydd i ailfeddwl, ailgynllunio a gwneud newidiadau ym mhob rhan o'r system. Mae'n hanfodol ymgysylltu â dinasyddion a'r gweithlu.

Rhaid i'r broses gael ei hategu hefyd gan linellau clir o atebolrwydd gweithredol a democrataidd am ddarparu gwasanaethau. Dylid nodi yn y cynllun ei hun sut mae hyn i'w gyflawni drwy waith rheoli perfformiad effeithiol a phrosesau craffu lleol democrataidd.

Mae cyflwyno cynlluniau integredig unigol yn herio awdurdodau lleol a'u partneriaid i gamu ymlaen â'u cydarweinyddiaeth ac mae'n rhoi'r ffocws a'r ysgogiad angenrheidiol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a mesuradwy drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol a gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cymunedau.

**Pa Ddyletswyddau Cynllunio y Gellid eu Cyflawni mewn Cynllun Integredig Unigol?**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid defnyddio cynllun integredig unigol i gyflawni'r dyletswyddau statudol o ran datblygu cynlluniau a strategaethau sydd wedi'u gosod yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: Adrannau 37-46)* – strategaethau cymunedol;
- *Deddf Plant 2004 (Rhan 3: Adran 26)* – Cynllun Plant a Phobl Ifanc (sy'n cynnwys cynlluniau sy'n ofynnol o dan adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Rhan 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010);
- *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Rhan 3: Adran 40)* – Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Rhan 1: Adran 6)* – strategaethau i ostwng troseddu ac anhrefn, strategaethau i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, a strategaethau i ostwng aildroseddu.

- *Mesur Plant a Theuloedd (Cymru) 2010 adrannau 11 a 12 – y dyletswyddau mewn perthynas ag awdurdodau lleol i asesu ar gyfer cyfleoedd chwarae digonol ac i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am ei drefniadau.*

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Fe ellid defnyddio cynllun integredig unigol i fodloni gofynion eraill am gynllunio statudol, er enghraifft, y ddyletswydd yn adrannau 22 a 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn eu hardal.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau sy'n ymwneud â'r cynlluniau hyn sydd wedi'u cyhoeddi o'r blaen:

- Strategaethau Cymunedol a Chynllunio – Cynllunio Cymunedol Cydweithredol
- Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau – Canllawiau ar gydweithio lleol o dan Ddeddf Plant 2004 a gyhoeddwyd ym mis Awst 2006, a chanllawiau dilynol ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Canllawiau ar y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011/12 i 2012/13

Maent yn darparu fframwaith i awdurdodau lleol a chyrff cynllunio eraill i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio statudol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac yn darparu hefyd ar gyfer gwneud mwy o benderfyniadau'n lleol ar faterion eraill.

Mae'r canllawiau sydd ym mhennod 2 (ac eithrio'r cwestiynau cyffredin), pennod 3, pennod 5, ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ganllawiau statudol. Maent yn rhoi arweiniad ynghylch llunio cynlluniau a threfniadau, monitro ac adolygu'r gweithredu arnynt, a gofynion deddfwriaethol y dyletswyddau presennol ar gyfer cynllunio statudol. Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u cyhoeddi o dan adran 45 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, adran 40(7)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Cymru) 2006, ac Adran 25(8) o Ddeddf Plant 2004 ac Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

## PENNOD 1: PARTNERIAETH AC IDDI DDIBEN

### Rôl Arwain Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol yn gwneud mwy o lawer na darparu gwasanaethau lleol pob dydd. Rhaid iddynt sefydlu a chynnal gwaith cynllunio cymunedol ar gyfer eu hardal, gan bennu amcanion hirdymor ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal, yn ogystal ag amcanion i gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y DU. Am eu bod yn gyrff democrataidd atebol sydd â phwerau, swyddogaethau a dylanwad eang, mae lle canolog gan awdurdodau lleol ym mywyd a dyfodol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae rôl arwain glir gan awdurdodau lleol o ran cefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol a llunio cynlluniau integredig unigol, ac wrth ymgysylltu a chraffu. Er hynny, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bartneriaeth o aelodau cyfartal ac ni ddylai'r awdurdod lleol dra-arglwyddiaethu arno.

### Rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol

Nid yw Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gyrff statudol. Maent yn fynegiant o arweinyddiaeth ymgysylltiol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn lleol. Rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw arwain newid, ac er mwyn cyflawni hyn dylai wneud y canlynol:

- cytuno ar flaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith amlasiantaethol i hybu'r agenda sydd wedi'i nodi yn y Rhaglen Lywodraethu ac ymateb i anghenion lleol a ddangoswyd yn glir;
- sicrhau gwelliannau drwy sicrhau bod systemau priodol ar waith a bod rheolwyr a staff rheng flaen mewn asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol a bod blaenoriaethau y cytunwyd arnynt wedi'u hadlewyrchu yng nghynlluniau corfforaethol y sefydliadau unigol;
- sicrhau bod strwythurau partneriaethau a strwythurau darparu gwasanaethau yn addas at y diben ac yn atebol;

- herio lle y ceir tanberfformiad neu laesu dwylo a rhoi newidiadau ar waith sy'n adlewyrchu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella canlyniadau i'r boblogaeth leol;
- adolygu'r cynnydd a wnaed a chyflwyno adroddiadau blynyddol arno – i'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Oherwydd ei rôl arwain gydweithredol, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw'r fforwm priodol ar gyfer llunio ac adolygu cynlluniau integredig unigol.

Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig. Rhaid sicrhau bod yr unigolion ar frig pob un o sefydliadau'r bartneriaeth yn gefnogol ac yn arwain drwy esiampl er mwyn cael newid mewn diwylliant a herio arferion a ffyrdd o weithio sy'n bodoli eisoes. Os nad yw sefydliadau, neu rannau o sefydliadau, yn cydweithio'n effeithiol i weddnewid a gwella pob maes gwasanaeth, dylai'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fod â'r awdurdod i fynnu newid a bod â'r cyfrifoldeb am wneud hynny.

**Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol**

Dylai aelodaeth graidd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynnwys arweinwyr (gwleidyddol a/neu weithredol) yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, y cyngor gwirfoddol sirol, ac uwch gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Gall y Bwrdd Gwasanaethau Lleol benderfynu a ddylid ehangu'r aelodaeth hon ond, gan ei fod yn bartneriaeth strategol, dylai sicrhau fod ei strwythurau ei hun yn syml ac yn addas i'w diben.

Yn ogystal ag ymgyngoreion statudol, mae rôl allweddol gan sefydliadau eraill wrth gynllunio a chyflawni cynllun integredig unigol, er enghraifft, Cymunedau yn Gyntaf, cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a cholegau addysg bellach ac uwch. Dylid gwneud trefniadau cadarn a pharhaol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymgysylltu â'r cyrff hyn. Dylid rhoi sylw hefyd drwy'r prosesau ymgysylltu i fuddiannau gwasanaethau cyhoeddus ehangach, busnesau, y trydydd sector a'r gymuned.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu etholedig yn cymryd lle Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru o fis Tachwedd 2012. Bydd yn ofynnol i'r Comisiynwyr roi Cynlluniau Heddlu a Throseddu pum mlynedd ar waith erbyn Ebrill 2013. Dylai partneriaid sicrhau eu bod yn defnyddio eu hasesiadau strategol o anghenion i gyfrannu at ddatblygu Cynlluniau Heddlu a Throseddu, a'u bod yn ymgysylltu'n gynnar â'r Comisiynwyr i sicrhau bod eu priod gynlluniau a blaenoriaethau'n gydnaws, a bod blaenoriaethau rhanbarthol yn bodloni anghenion lleol. Efallai y bydd cyfle i integreiddio ymhellach e.e. drwy ymgynghori ar y cyd, comisiynu ar y cyd a chraffu ar y cyd.

**Canlyniadau a Rennir**

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r canlyniadau y dylai Cymru weithio tuag at eu cyflawni a'r meysydd gweithredu â blaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n amlwg mai dim ond drwy waith amlasiantaethol y gellir cyflawni'r rhan fwyaf o'r canlyniadau lefel uchaf yn y Rhaglen Lywodraethu. Dylid adlewyrchu'r canlyniadau hyn mewn cynlluniau integredig unigol.

Mae'r canlyniadau canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu yn neilltuol o bwysig ar gyfer darpariaeth amlasiantaethol leol:

- gwella profiadau yn y blynyddoedd cynnar;
- gwella canlyniadau iechyd ac addysg y plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi;
- atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- cymunedau mwy cynhwysol a chydlynus;
- gwella sgiliau pobl ifanc a theuluoedd;
- sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i fyw bywydau bodlon;
- creu mannau cynaliadwy i bobl.

Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ddefnyddio ei ddadansoddiad strategol o anghenion i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n lleol, a dylai

fabwysiadu ymagwedd gyson at newid systemau er mwyn hybu gwelliannau. Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau bod pwyslais strategol cryf ar y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau, a bod cysylltiad clir rhwng hyn a thystiolaeth o angen. Wrth weithredu, dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ddefnyddio'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt wrth lunio atebion effeithiol, gan gyfeirio'n benodol at waith Byrddau Gwasanaethau Lleol eraill a ffrwd waith Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Pobl Agored i Niwed Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus[3].

Mae gwaith ar y cyd yn y gymdogaeth neu'r ardal yn gallu mynd i'r afael â phroblemau cydberthynol cymhleth mewn ardaloedd a chymunedau a sicrhau gwelliannau parhaus. Mae Llywodraeth Cymru o blaid mabwysiadu dull o weithio ar lefel y gymdogaeth neu'r ardal mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ffordd o dargedu camau gweithredu amlasiantaethol yn effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau cysylltiadau cryfach rhwng Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chymunedau yn Gyntaf.

**Y Trydydd Sector**

Gall y trydydd sector ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau o lawer math a gall gynnig opsiynau hyblyg ar gyfer eu darparu (gan gynnwys rhai drwy elusennau, mentrau cymdeithasol, a darpariaeth gydfuddiannol neu gydweithredol) sy'n agos at ddinasyddion ac yn eu cynnwys. Gall gyfrannu at lunio a darparu gwasanaethau lleol drwy ei arbenigedd mewn ymgysylltu effeithiol â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau posibl.

Mae'r sector yn gallu cyfrannu'n helaeth hefyd at sicrhau newid angenrheidiol drwy fabwysiadu gwasanaethau ataliol, fel rhai ar gyfer cynnal a chefnogi annibyniaeth pobl, a gwasanaethau ailalluogi ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Oherwydd ei brofiad o helpu pobl i reoli eu gofal eu hunain a pharhau i fyw'n annibynnol, mae ganddo brofiad gwerthfawr o ddulliau atal ac ymyrryd cynnar. Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol geisio defnyddio'r sector hwn yn y ffordd orau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf addas o wasanaethau i fodloni anghenion lleol.

**Atebolrwydd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol**

[3] Gweler http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/pslg/nwp/effectservices/

Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn atebol am ddarparu gwasanaethau ac am eu cyfraniad i'r cynllun integredig. Nid yw atebolrwydd yn golygu rheolaeth linell na'r gallu i ymyrryd yn y rheolaeth ar y sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ond, o dan ddarpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, bydd yn ofynnol i aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol fod yn agored i graffu ac ateb drostynt eu hunain. Ar ôl cytuno ar y cynllun integredig unigol, dylid cynnwys ymrwymiadau'r darparwyr gwasanaethau unigol yn eu cynlluniau corfforaethol eu hunain.

Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynrychioli eu sefydliadau eu hunain a dylent sicrhau eu bod wedi cael y caniatâd angenrheidiol cyn rhwymo eu sefydliad i gymryd cam gweithredu penodol.

## Gofynion Deddfwriaethol

O ran y cynlluniau a'r strategaethau statudol y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio atynt, yr unig bartneriaeth statudol yw'r un sy'n cael ei galw'n 'grŵp strategaeth' mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Cyflawnir y rôl hon fel arfer gan y partneriaethau diogelwch cymunedol. Er hynny, mae'n bosibl i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyflawni rôl y grŵp strategaeth, ar yr amod bod aelodau'r grŵp strategaeth sydd wedi'u henwi yn y rheoliadau[4] yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a'u bod yn cwrdd er mwyn cyflawni dyletswyddau'r grŵp strategaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer llunio a gweithredu strategaethau cymunedol, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a Strategaethau Iechyd a Lles yn enwi partneriaid penodol y mae'n rhaid ymgysylltu â hwy yn ystod y broses cynllunio ac mae'n enwi'r rheini y mae'n rhaid iddynt gytuno ar y cynlluniau terfynol (gweler Pennod 2 ac Atodiad A).

Er mwyn bodloni gofynion statudol y cynlluniau sydd wedi'u henwi yn y canllawiau hyn, rhaid parhau â'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori statudol os oes bwriad i lunio cynllun integredig unigol, a rhaid cytuno ar gynlluniau integredig unigol yn unol

[4] Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007; Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007.

â'r gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, ni fydd yr angen i gydymffurfio â'r gofynion statudol hyn yn rhwystro'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol rhag adolygu a symleiddio strwythurau partneriaeth i'w gwneud yn addas i'w diben.

## PENNOD 2: CYNLLUNIO INTEGREDIG

### Cyflwyniad

Ni all un sefydliad ddiwallu holl anghenion y gymuned ac mae pob sefydliad yn wynebu pwysau ariannol. O ganlyniad, mae'n hanfodol bwysig cynllunio'r gwasanaethau a ddarperir mewn modd cydweithredol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys yr arferion gorau o bob rhan o Gymru a thu hwnt ar gyfer cynllunio gwasanaethau cynaliadwy i bobl a chymunedau. Mae'r canllawiau'n cymell:

- newid parhaus tuag at syniadaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan sicrhau bod anghenion pobl a chymunedau wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau;
- newid sylweddol mewn prosesau ar gyfer dadansoddi anghenion, cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau, o adweithio ac atgyweirio i rag-weld ac ymyrraeth gynnar;
- tryloywder llwyr o ran perfformiad.

Mae cynllun integredig unigol yn ffordd o gyflawni hyn.

### Sut y dylech ddatblygu eich cynllun?

Dylai cynllun integredig unigol gael ei seilio ar asesiad strategol a chynhwysfawr o anghenion (gweler Pennod 4), dylai ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a dylai ystyried anghenion y boblogaeth gyfan yn yr ardal leol gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau sydd o dan anfantais, yn agored i niwed neu mewn perygl o fod yn agored i niwed.

Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn sicrhau amrywiaeth o fanteision:

- mae'n hwyluso ac yn cymell cydweithredu rhwng sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau;

- mae'n symud y pwyslais oddi ar brosesau ac allbynnau ac yn ei osod ar effaith gwasanaethau ar les pobl a chymunedau;
- drwy ddadansoddi tystiolaeth yn drylwyr, mae'n helpu partneriaid i flaenoriaethu ymyriadau ac yn darparu sail ar gyfer ailflaenoriaethu ymdrechion ac adnoddau;
- mae'n nodi'r cyfraniadau gan bartneriaid unigol yn glir, yn pennu'r atebolrwydd cysylltiedig ac mae'n fodd i greu cysylltiadau uniongyrchol rhwng canlyniadau a rennir a chynlluniau corfforaethol y partneriaid;
- mae'n sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau drwy fanteisio hyd yr eithaf ar y cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd a lleihau'r risg o ddyblygu gwastraffus;
- mae'n darparu fframwaith rheoli perfformiad i fesur cynnydd drwy sicrhau bod data yn cael eu casglu a'u cofnodi'n rheolaidd.

Mae arfer effeithiol yn gofyn am ymrwymiad llwyr ar y lefel uchaf a buddsoddi mewn hyfforddiant, a rhaid iddo lywio newid diwylliannol yn y ffordd y mae sefydliad yn sicrhau bod lles pobl wrth wraidd ei waith, gan ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth ar bob cam i ysgogi gwelliant.

**Beth y dylai'r cynllun integredig unigol ei gynnwys?**

Dylai nodi'r canlynol yn glir:

1. **Gweledigaeth**: y weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal leol.
2. **Gwaith dadansoddi**: materion allweddol, tueddiadau a phatrymau angen lleol, wedi'i seilio ar ddadansoddiad cynhwysfawr a chyfoes o angen.
3. **Cynllun gweithredu**: y canlyniadau â blaenoriaeth am gyfnod o 3-5 mlynedd a chynllun gweithredu clir ar gyfer ysgogi gwelliant sy'n disgrifio cyfraniadau ac atebolrwydd y partneriaid. Dylid canolbwyntio'n benodol ar nifer bach o'r blaenoriaethau uchaf sy'n ffurfio agenda graidd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer gwella.

4. **Strategaethau galluogi**:  strategaeth wybodaeth a strategaeth ymgysylltu.
5. **Sicrwydd**: trefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer llywodraethu, rheoli perfformiad a chraffu.

Wrth gynnwys y wybodaeth hon yn y cynllun, rhaid bodloni gofynion cyfreithiol penodol y dyletswyddau cynllunio.

Gweledigaeth

Dylai'r cynllun integredig unigol ddisgrifio'r weledigaeth hirdymor gyffredinol ar gyfer datblygu cymunedau'n gynaliadwy yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Er mwyn deall y newid tebygol yn y galw am wasanaethau, dylai ystyried newidiadau demograffig, y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, effaith y newid yn yr hinsawdd a newid mewn ffocws a buddsoddi o fesurau adfer i fesurau ataliol.

Gwaith dadansoddi

Dylid adnabod anghenion lleol drwy nodi'r prif ddata a thueddiadau, yn ogystal ag amrywiadau o fewn yr ardal e.e. yn ôl ardal leol neu grŵp poblogaeth, a'r rhesymau dros amrywiadau o'r fath. Mae cyd-destun y data yn allweddol i ddeall pa fath o ymyriadau sydd fwyaf tebygol o weithio. Dylech ystyried y ffordd orau o gyflwyno'r canfyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ystyrlon i gymunedau lleol. Gweler Pennod 4.

Cynllun Gweithredu

Dylai'r adran hon edrych 3-5 mlynedd i'r dyfodol gan nodi'n fanwl y canlyniadau ar gyfer y boblogaeth y mae angen eu gwella yn y tymor canolig, er mwyn gwneud cynnydd tuag at wireddu'r weledigaeth hirdymor. Bydd hyn yn pennu'r 'atebolrwydd pobl'. Er mwyn canolbwyntio'n strategol ar y problemau mwyaf dybryd, dylid canolbwyntio'n benodol ar nifer bach o ganlyniadau â'r flaenoriaeth uchaf sydd wedi'u pennu ar sail angen. Dylai hefyd nodi'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir i fesur cynnydd. Bydd hyn yn pennu'r 'atebolrwydd perfformiad', gan ddisgrifio'n fanwl y camau y bydd pob un o'r partneriaid yn eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth. Y Rhaglen Lywodraethu yw'r fframwaith o ganlyniadau lefel uchel i bob rhan o Gymru ac mae hefyd yn nodi mesurau a dangosyddion perthnasol.

Strategaethau Galluogi

**Strategaeth wybodaeth**

Os caiff gwasanaethau eu cynllunio ar sail y galw yn hytrach na'r angen, bydd hynny'n arwain at ddarparu gwasanaethau adferol sy'n trin problemau wedi iddynt godi, yn hytrach na'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau a disgwyliadau'n codi, nid yw hyn yn gynaliadwy.

Er mwyn cynllunio'n integredig ar sail angen, mae angen neilltuo adnoddau sylweddol i ddadansoddi'r dystiolaeth, yn gyffredinol ar gyfer yr holl ganlyniadau, ac yn fanwl o ran y blaenoriaethau uchaf. Mae hyn yn golygu mwy nag edrych ar fesurau a dangosyddion: mae'n cynnwys gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a staff rheng flaen; deall ymddygiad defnyddwyr, sut mae sefydliadau'n cydweithio, sut y gellir ailganoli'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau'n strategol i ddiwallu anghenion, a'r newidiadau sydd eu hangen yn y prosesau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a dyrannu adnoddau er mwyn mabwysiadu dull mwy ataliol o weithredu. Mae hefyd yn golygu trefnu bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ac mae cyfle cynnar i gydweithio'n agos â'r GIG wrth iddo ddatblygu ei strategaethau gwybodaeth gyhoeddus[5].

Ceir adnoddau sylweddol ar gyfer dadansoddi yn y system yn gyffredinol, ond ar hyn o bryd mae adnoddau a gallu wedi'u dosbarthu'n anghyfartal rhwng sefydliadau ac yn aml maent yn gweithredu ar wahân. Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol alw ar yr adnoddau hyn er mwyn ategu ei waith. Dylai'r cynllun integredig unigol gynnwys *strategaeth wybodaeth* sy'n egluro sut y bydd y partneriaid yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn er mwyn cael y wybodaeth gywir ar yr adeg gywir i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol er mwyn llywio ei waith. Dylai'r wybodaeth sydd ar gael i'r partneriaid fod yn adnodd lleol a rennir ar gyfer dadansoddi anghenion, cynllunio ymyriadau a gwerthuso effeithiau'n barhaus ar gyfer y cynllun integredig unigol cyfan.

**Strategaeth ymgysylltu**

Mae dull Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi'i seilio ar broses lle mae llais y dinesydd yn sbardun i wella gwasanaethau. Dylai'r cynllun integredig unigol

---

[5] Gweler *Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru*, Tachwedd 2011
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?skip=1&lang=cy

gynnwys strategaeth ymgysylltu yn nodi sut y mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan ddisgrifio'n glir iawn sut y bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dylai gael ei ddefnyddio hefyd i gyflawni dyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol i hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cymell i gymryd rhan[6] a dylid cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae hyn i'w gyflawni yn y strategaeth ymgysylltu.

Mae cyfranogiad gan y cyhoedd wrth ddatblygu cynlluniau wedi'i hen sefydlu erbyn hyn. Fodd bynnag, mae ymgysylltu manwl ag unigolion, teuluoedd, pobl ifanc  a staff rheng flaen, er enghraifft, yn gallu rhoi dealltwriaeth dda iawn o rai o'r problemau mwyaf cymhleth ac anodd eu datrys a ddylai gael sylw drwy'r broses gynllunio. Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o ddefnydd helaeth o ymgysylltu o'r math hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn delio â methiant a chreu gwasanaethau o'r radd flaenaf, er bod enghreifftiau penodol o arfer rhagorol.

Dylai'r cynllun integredig unigol gynnwys *strategaeth ymgysylltu* sy'n egluro sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

<u>Sicrwydd</u>

Dylai'r cynllun gynnwys gwybodaeth am waith llywodraethu, rheoli perfformiad a chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol: pwy sy'n gyfrifol am beth a sut y caiff pobl eu dwyn i gyfrif.

Dylai'r cynllun integredig unigol egluro pa ddyletswyddau cynllunio penodol y mae'n eu cyflawni. Rydym yn argymell cael adran neu ddogfen ategol sy'n dangos yn glir lle y mae'r cynllun yn delio â dyletswyddau statudol penodol er mwyn rhoi sicrwydd i ddinasyddion ac aelodau etholedig. Bydd y crynodeb o ddeddfwriaeth yn Atodiad A yn helpu i wneud hyn.

Caiff cynllun integredig unigol gwmpasu mwy nag un awdurdod lleol, ar yr amod bod yr holl bartneriaid yn gytûn. Os yw cynllun yn cynnwys mwy nag un ardal, dylai nodi'r ardaloedd hynny'n glir a dylid enwi'r ardaloedd perthnasol ar glawr y cynllun.

**Gyda phwy y dylech weithio i ddatblygu eich cynllun integredig unigol?**

[6] Gweler dyletswyddau awdurdodau lleol ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011, adran 12 ac Atodiad B.

Mae gan bartneriaid cynllunio cymunedol gyfrifoldeb i weithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn:

- datblygu gweledigaeth, amcanion a chamau gweithredu'r Strategaeth Gymunedol (ac felly'r cynllun integredig unigol);
- cymryd camau i weithredu'r strategaeth gymunedol sy'n rhan o'u cylch gwaith;
- ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau lleol i gyflawni'r uchod a bod yn atebol iddynt.

Mae Atodiad A yn nodi'r partneriaid statudol sydd wedi'u henwi yn y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r cynlluniau statudol yr ydym yn argymell eu hymgorffori yn y cynllun integredig unigol. Mae adran 44 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i ymgynghori â nifer o gyrff eraill yn ystod y broses gynllunio. Dylai'r rhain gynnwys cynghorau cymuned, cyrff yn y sector preifat a'r trydydd sector ac, os yw'n briodol, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, rhai datganoledig ac annatganoledig. Felly dylid ystyried cynnwys rhanddeiliaid sydd â buddiant neu ddiddordeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau i'r boblogaeth leol.

Drwy ymgynghori ar y cynllun integredig unigol â'r cyrff sydd wedi'u henwi yn y ddeddfwriaeth, bydd y sefydliadau sy'n gyfrifol am gynllunio'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Dylid ymgynghori am 12 wythnos o leiaf.

### Pa enw y dylech ei roi ar eich cynllun integredig unigol?

Yn y canllawiau hyn rydym yn galw'r cynllun yn 'gynllun integredig unigol' er mwyn eich atgoffa am natur integredig yr hyn sy'n cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, cewch ddewis unrhyw deitl ar ei gyfer.

### Pwy sy'n gyfrifol am gymeradwyo cynllun integredig unigol?

Mae'r ddyletswydd i gytuno ar y gwahanol gynlluniau statudol sydd wedi'u henwi yn y canllawiau hyn, a'u cyhoeddi, wedi'i rhoi i'r awdurdod lleol a chyrff eraill sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r cynllun integredig unigol yn ffordd i'r cyrff hynny gyflawni eu dyletswyddau cynllunio ac, oherwydd hynny, byddai angen i bob corff gymeradwyo'r cynllun integredig yn unol â'r gofynion.

Mae'r crynodeb o ddeddfwriaeth yn Atodiad A yn dangos y dyletswyddau cynllunio yr ydym yn argymell eu cynnwys mewn cynllun integredig unigol, ac mae'n rhoi manylion y partneriaid cynllunio ar gyfer pob darn o ddeddfwriaeth.

Bydd goblygiadau yn y blaenoriaethau a'r camau gweithredu mewn cynllun integredig unigol i gynlluniau corfforaethol y sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, felly dylai Byrddau (neu gyrff cyfatebol) y sefydliadau hyn roi ystyriaeth benodol i'r cynllun integredig unigol a chytuno arno.

Mae Gweinidogion Cymru yn ymgyngoreion statudol ac mae ganddynt ddiddordeb dilys yn y ffordd y caiff cynlluniau integredig unigol eu datblygu a'u gweithredu gan fod y cynlluniau'n egluro sut mae partneriaid lleol yn bwriadu gwella lles pobl yng Nghymru. Dylech anfon copi o'r cynllun drafft i Lywodraeth Cymru pan gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori, er ein bod yn eich cymell i ddod i gysylltiad yn gynharach. Prif feysydd diddordeb Llywodraeth Cymru fydd ansawdd a chyfanrwydd y dadansoddiad o anghenion, trylwyredd y fethodoleg ar gyfer canlyniadau, a'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a chraffu. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo nac yn gwrthod cynllun ond bydd yn disgwyl i'w sylwadau gael eu hystyried yn drylwyr.

**Pwy sy'n 'berchen' ar y cynllun integredig unigol?**

Y cynllun integredig unigol yw'r cynllun strategol ar gyfer yr ardal, ac mae'n eiddo i bob partner cynllunio a'u hasiantau cyflenwi. Bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am ei chyfraniad ei hun at lwyddiant y strategaeth ond, am mai hi yw'r bartneriaeth strategol, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, lle y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni rôl arwain, yn gyfrifol am y canlynol:

- comisiynu a chynhyrchu'r cynllun integredig unigol;
- sicrhau y caiff ei gyflawni drwy fframwaith rheoli perfformiad cadarn;
- rhoi trefniadau craffu lleol heriol ar waith;
- dileu rhwystrau rhag darparu ar draws sectorau drwy ddylanwad a chamau gweithredu ei aelodau.

Mae Pennod 3 yn egluro sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono'n cael eu dal yn atebol am gyflawni'r cynllun integredig unigol.

### Sut y dylid cyhoeddi cynllun integredig unigol?

Rydym yn annog Byrddau Gwasanaethau Lleol i fod yn fentrus wrth ddylunio'r cynllun integredig unigol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiddorol, yn hawdd ei ddeall ac yn hwylus i bawb. Caiff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol lunio strategaeth ar gyfer y cyhoedd ac atodiadau technegol sy'n nodi sut mae'r cynllun yn bodloni'r gofynion statudol.

Wrth gyhoeddi'r cynllun integredig unigol, dylech weithredu'n unol â gofynion mewn deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg a'r arferion gorau o ran y fformatau eraill a fydd ar gael.

Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyried parhau i ymgysylltu ar ôl cyhoeddi'r cynllun integredig unigol er mwyn hybu ymwybyddiaeth ohono a rhoi gwybod i ddinasyddion a chymunedau am y cynnydd ar ei gyflawni.

### Beth yw'r cylch cynllunio?

Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, dylid ymgorffori'r canlyniadau a'r camau gweithredu penodol ar gyfer pob un o'r partneriaid cyflenwi yn eu cynlluniau corfforaethol a gweithredol eu hunain – er enghraifft, byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ymgorffori'r canlyniadau a'r amcanion penodol sydd i'w cyflawni ganddo yn ei gynllun cyflawni blynyddol.

Dylai cynlluniau integredig unigol fod ar waith ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2013. Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fonitro cynnydd y cynllun yn rheolaidd a'i adolygu'n ffurfiol bob blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod gwahanol gylchoedd cynllunio hanesyddol y gwahanol gynlluniau yn gyson.

Dylai'r adolygiad blynyddol alluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddeall y canlynol:

1) a yw camau gweithredu sy'n deillio o'r cynllun yn gwneud cynnydd ac a oes tystiolaeth o effaith ar ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth yn lleol;

2) a yw'r blaenoriaethau a bennwyd yn y cynllun yn dal yn gyfredol;

3) a yw'r strwythurau a'r prosesau a roddwyd ar waith er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau yn dal yn berthnasol ac yn briodol;

a dylai'r adolygiad fod yn sail i adroddiad blynyddol (gweler Pennod 3). Lle bynnag y bo modd, dylid cysoni proses yr adolygiad a'r adroddiad blynyddol â'r gofynion sy'n bodoli eisoes er mwyn cael llai o ddyblygu ar waith e.e. gofynion i gyflwyno adroddiadau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Rhan 1. Dylid cynnal adolygiad mwy trylwyr tua phob pedair blynedd, yn unol â'r cylch etholiadol lleol.

## Cwestiynau Cyffredin

**A fydd asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ofynnol o hyd ar ôl Ebrill 2013?**

Mae adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal. Nid yw'r adran hon wedi'i chychwyn eto ac, felly, nid yw'r dyletswyddau yn yr adran hon mewn grym. Pan gychwynnir yr adran hon, bydd yn ofynnol cynnal asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae. Dylai'r asesiad hwn fod yn rhan o bob asesiad strategol o anghenion, a gellid dangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r ddyletswydd hon mewn cynllun integredig unigol.

**A fydd gofyniad o hyd i gael Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant?**

Mae'r gofyniad yn adran 119 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i awdurdodau lleol sefydlu partneriaethau datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn grym o hyd. Pwrpas y partneriaethau hyn yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth o addysg feithrin yn ardal yr awdurdod. Fodd bynnag, mae'r gofyniad yn adran 120 o'r Ddeddf, a oedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, ar y cyd â'r partneriaethau, i baratoi cynllun datblygu blynyddoedd cynnar wedi'i ddiddymu.

Nid oes angen sefydlu partneriaeth ar wahân dim ond i gynnal asesiad o ddigonolrwydd addysg feithrin; gellid cyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Nid yw Deddf 1998 yn cyfeirio at gyfansoddiad y bartneriaeth felly dylid arfer hyblygrwydd lleol wrth gwrdd â'r angen i gynnal asesiad o ddigonolrwydd. Dylai'r asesiad o ddigonolrwydd fod yn rhan o'r asesiad strategol o anghenion ar gyfer y cynllun integredig unigol.

**A fydd yn rhaid gwneud asesiad o ddigonolrwydd gofal plant ar ôl Ebrill 2013?**

Bydd. Dylai hyn fod yn rhan o'r asesiad strategol o anghenion sy'n sail i'r cynllun integredig unigol.

**Beth am wasanaethau cymorth ieuenctid o dan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000?**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau darpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid, neu gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid. Er hynny, nid yw'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi cynllun neu gyhoeddi gwybodaeth oni bai fod Gweinidogion Cymru yn eu cyfarwyddo i wneud hynny, ac nid yw'n ymwneud â'r dyletswyddau cynllunio yn y cynlluniau a strategaethau sydd wedi'u henwi yn y canllawiau hyn.

**A oes gofyniad o hyd i gael cyfarwyddwr arweiniol ac aelod ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar gyfer yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol?**

Oes. Mae adran 27 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

(a) penodi swyddog, sydd i'w alw'n gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn cydgysylltu a goruchwylio trefniadau sydd wedi'u gwneud o dan adrannau 25 a 26 o'r Ddeddf;

(b) dynodi un o'u haelodau, sydd i'w alw'n aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, a fydd â gofal penodol am gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan yr adrannau hynny.

**A fydd gofyniad o hyd i gael Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd statudol?**

Bydd. Mae gofyniad i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd (sydd wedi'i nodi yn adran 61 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010) yn yr ardaloedd hynny lle y mae Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn weithredol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Gwasanaeth hwn ar waith fesul cam ledled Cymru ac yn gweithredu'r pwerau hyn drwy wneud Gorchmynion Cychwyn priodol yn ardal pob un o'r awdurdodau lleol pan fyddant yn barod i weithredu'r Gwasanaeth (a hynny'n cynnwys sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd).

**Beth yw rôl Byrddau Lleol Diogelu Plant?**

Mae diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth a rennir i bawb sy'n dod i gysylltiad â hwy ac yn darparu gwasanaeth iddynt. Byrddau Lleol Diogelu Plant yw'r system statudol allweddol ar gyfer cytuno sut bydd y sefydliadau perthnasol ym mhob ardal yn cydweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Ar ôl

cynnal adolygiad o Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn 2011[7], cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd newidiadau sylweddol yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau amddiffyn a diogelu [8], a roddir ar waith drwy gyflwyno Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ym mis Hydref 2012. Bydd angen i Fyrddau Lleol Diogelu Plant ymgysylltu'n agos â'r trefniadau newydd er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau o ran diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn cyd-fynd â chynlluniau integredig unigol.

**Beth yw rôl Cymunedau yn Gyntaf?**

Nod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw mynd i'r afael ag anghenion ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i bobl leol chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lywio dyfodol eu cymuned ac ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd.

Mae Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Wrth ddatblygu cynllun integredig unigol, dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol ymgysylltu â'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf newydd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau cymunedol a rhanbarthol, a darparu modd i ymgysylltu â'r unigolion anoddaf eu cyrraedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig fel rhan o'r broses gynllunio. Dylid cael cytundeb clir ar y ffordd y bydd swyddogion Cymunedau yn Gyntaf a swyddogion Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cydweithio'n barhaus.

**Sut y bydd cynlluniau integredig unigol yn dylanwadu ar waith rhanbarthol?**

Yn Rhagfyr 2011, llofnododd Llywodraeth Cymru Gompact[9] â llywodraeth leol a fydd yn sylfaen i ddull newydd o drefnu a darparu gwasanaethau cymdeithasol ac addysg a gwasanaethau eraill llywodraeth leol. Wrth i'r diwygiadau ddod i rym bydd angen ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion lleol ac a yw'n well darparu gwasanaethau'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen ystyried atebolrwydd a threfniadau craffu lleol yn ofalus.

---

7 *Cydarolygiad Byrddau Lleol Diogelu Plant*, AGGCC, Hydref 2011
8 Gweler http://wales.gov.uk/newsroom/healthandsocialcare/2011/5502227/
9 Gweler http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publications/compact/?lang=cy

Er y gallai'r agenda ranbarthol ar gyfer cydweithredu fod yn wahanol i agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol, mae cysylltiadau amlwg rhwng y ddwy. Mae'r cysylltiadau hyn yn debygol o ddatblygu'n wahanol, yn ôl y math o gytundeb sydd wedi'i wneud rhwng partneriaid ym mhob ardal, mewn ymateb i'r heriau sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau. Lle y mae grwpiau arwain rhanbarthol wedi'u sefydlu'n barod, dylent bennu dulliau clir o gysylltu trefniadau lleol a rhanbarthol ar gyfer asesu anghenion, cyflawni ac atebolrwydd. Os nad yw trefniadau lleol wedi'u gwneud yn barod, gallai Byrddau Gwasanaethau Lleol gydystyried y ffordd orau i'w sefydlu.

Mae'r Grŵp Arwain Sector Cyhoeddus cenedlaethol wedi cymeradwyo rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn frwd ac mae disgwyliad pendant y byddant yn cymryd rhan wrth ystyried a hyrwyddo'r gwaith ar Wasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed.

Rhaid i awdurdodau lleol sy'n ffinio â Lloegr sicrhau eu bod yn ystyried unrhyw ddibyniaeth sydd gan ddinasyddion a chymunedau yn eu hardaloedd ar wasanaethau a ddarperir yn Lloegr, ac fel arall.

## PENNOD 3:  ATEBOLRWYDD ATGYFNERTHEDIG

### Cyflwyniad

Dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol, eu partneriaid a phersonau neu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i sefydliadau sy'n aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol fod yn agored ac yn dryloyw wrth ymwneud â'r cyhoedd, gan esbonio'r camau y maent yn eu cymryd a derbyn cyfrifoldeb amdanynt.

Mae angen rhoi'r sicrwydd hwn ar nifer o lefelau:

- **Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd**: rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gymryd cyfrifoldeb am ei berfformiad ei hun a sicrhau ei fod yn dryloyw. Bydd dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn rhoi i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i fonitro cynnydd a deall gwahaniaethau. Profi, adolygu a herio'r dystiolaeth hon fydd wrth wraidd agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad blynyddol i ddangos y cynnydd a gafwyd.
- **Rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol**: mae nifer o gyrff yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau cynllunio statudol yn y ddeddfwriaeth berthnasol ond mae gan lywodraeth leol rôl i'w chwarae ym mhob rhan. Oherwydd hyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau craffu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol am gamau a gymerir gan bartneriaethau.
- **Rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru**: bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob cynllun integredig unigol ac yn rhoi adborth arno. Bydd y cynlluniau'n ddogfen gyfeirio graidd i'r Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddant yn cynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn ardaloedd lleol. At hynny, rydym yn ystyried sut y gellir cysylltu cynlluniau integredig unigol â'r trefniadau a fydd yn dilyn Cytundebau Canlyniadau, pan ddaw'r trefniadau presennol i ben ym mis Mawrth 2013.

### Rheoli Perfformiad

Erbyn hyn mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael eu defnyddio'n helaeth yng Nghymru a thu hwnt a dyma'r fethodoleg cynllunio a rheoli perfformiad a ffefrir ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol. Er mwyn cyflawni'r cynllun integredig unigol yn effeithiol mae angen pennu set bendant o ganlyniadau, dangosyddion a mesurau rheoli i werthuso cynnydd. Dylid sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â dangosyddion olrhain y Rhaglen Lywodraethu.

Ni ddylai gweithgarwch rheoli perfformiad greu biwrocratiaeth newydd ond dylai wella'r ffordd o reoli systemau sy'n bodoli eisoes a sicrhau mwy o gysondeb rhyngddynt. Dylid canolbwyntio ar sicrhau bod partneriaid yn defnyddio'r wybodaeth yn adeiladol i reoli eu perfformiad cydweithredol a sicrhau canlyniadau.

Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyhoeddi adroddiad cryno unwaith y flwyddyn. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys crynodeb cytbwys o'r gwaith a gyflawnwyd ar sail blaenoriaethau a chanlyniadau'r cynllun integredig unigol a disgrifiad o effeithiolrwydd y cynllun yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gydnabod y gall fod yn anodd priodoli achos ac effaith ac y gall ffactorau allanol gael cryn ddylanwad ar ganlyniadau. Y prif elfennau y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yw:

- adroddiad am y cynnydd gan y sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar sicrhau'r canlyniadau a bennwyd yn y cynllun integredig unigol, a fydd yn cynnwys crynodeb o'r camau lliniaru a gymerwyd i ymateb i ddatblygiadau negyddol;
- adroddiad am gyflawni'r strategaeth wybodaeth; ac am ymgysylltu â phobl a chymunedau;
- adroddiad am lywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r prosesau y mae'n eu defnyddio i reoli ei berfformiad ei hun;
- adroddiad am y craffu gan yr awdurdod lleol ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono, a chrynodeb o adroddiadau perthnasol gan yr arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru;
- newidiadau yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Dylid cyhoeddi'r adroddiad ar wefannau pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a hysbysu aelodau etholedig a phartneriaid cynllunio cymunedol amdano. Dylid hefyd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ddangos tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed.

### Craffu

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod gofyniad newydd ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus dynodedig (sy'n cael eu galw'n 'bersonau dynodedig' yn y Mesur) yn eu hardal. Mae hyn yn debygol o gynnwys y cyfan neu'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond rhagwelir y bydd y pwyllgorau craffu'n canolbwyntio ar gyfraniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol cyfan, yn ôl pob tebyg. Bydd Gorchymyn Gweinidogol yn nodi pa ddarparwyr gwasanaethau a gaiff eu dynodi felly ac a fyddant o ganlyniad yn destun craffu gan lywodraeth leol. Pwrpas y craffu ar wasanaethau cyhoeddus yw egluro'r cyfraniad gan wahanol sefydliadau at gyflawni a hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd dros ganlyniadau a rennir.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ganiatáu i ddau neu ragor o awdurdodau unedol sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, ac i roi adroddiadau neu argymhellion i unrhyw un o'r awdurdodau sy'n sefydlu'r pwyllgor. Y bwriad yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu dan arweiniad Aelodau'n ddigon hyblyg i ddylanwadu ar y ffordd o ddarparu gwasanaethau, beth bynnag yw'r ffiniau sefydliadol a daearyddol. Am fod awdurdodau lleol yn gallu ffurfio cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, bydd mwy o opsiynau ar gael iddynt wrth ddwyn partneriaid a sefydliadau i gyfrif, ac wrth ymchwilio i faterion trawsbynciol ar draws ffiniau daearyddol.

### Arolygu ac Archwilio

Mae'r gyfundrefn arolygu yn system ar gyfer gwella ac mae'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol, yn effeithiol ac yn effeithlon. O ran sefydliadau sy'n aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Lleol, y prif gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Bydd cynlluniau integredig unigol yn ddogfennau cyfeirio pwysig i'r arolygiaethau a SAC eu hystyried wrth gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn ardaloedd lleol. Gallent roi prawf ar gadernid cynlluniau integredig unigol drwy ddewis sampl ar gyfer proses hunanwerthuso a chydarolygu o bryd i'w gilydd.

Hefyd gallent gydadolygu'r broses o ddatblygu cynlluniau integredig unigol, y ffordd o bennu canlyniadau a dangosyddion, ansawdd y gweithgarwch a gafwyd i gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â dinasyddion, a chadernid y trefniadau a wnaed i reoli perfformiad a chraffu. Gallent hefyd ystyried graddau ac ansawdd y cydweithio rhwng partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a pha mor effeithiol oeddent wrth gydweithio i ddatblygu, cyflawni ac adolygu'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Er mwyn mesur effeithiolrwydd, yn ogystal ag edrych ar ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth, gallent hefyd chwilio am dystiolaeth o'r effaith ar brosesau comisiynu gwasanaethau h.y. a oes cysylltiad clir rhwng gweithgarwch comisiynu a thystiolaeth o'r angen ac a ydynt yn dod yn fwy strategol. Gallai hyn gynnwys chwilio am dystiolaeth bod partneriaid wedi prif ffrydio eu hymrwymiadau yn y cynllun integredig unigol o fewn eu prosesau rheoli a chynllunio corfforaethol.

**Cytundebau Canlyniadau**

Bydd Cytundebau Canlyniadau llywodraeth leol yn dod i ben ar eu ffurf bresennol ym mis Mawrth 2013. Mae Cytundebau Canlyniadau yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd a byddwn yn rhoi sylw i'r gwaith hwn wrth ystyried cyflwyno unrhyw drefniadau i'w dilyn. Bryd hynny byddwn yn ystyried sut y gellir cysylltu cynlluniau integredig unigol ag unrhyw drefniadau a fydd yn dilyn Cytundebau Canlyniadau ac yn ymgynghori ar hynny.

## PENNOD 4: DATBLYGU SAIL DYSTIOLAETH GADARN

### Cyflwyniad

Er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynllun integredig unigol gael ei ategu gan asesiad unigol o anghenion, dylid gweld hyn yn rhan o ddull mwy arloesol a thrylwyr o gasglu tystiolaeth a'i dadansoddi (gweler yr adran ar Strategaethau Galluogi ym Mhennod 2 uchod). Er mwyn bod yn effeithiol, dylai sail dystiolaeth leol ganolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth i feithrin dealltwriaeth, yn hytrach na chasglu tystiolaeth fel y cyfryw, a dylai fodloni gofynion byrdymor am dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r gofynion tymor hwy sy'n ymwneud â gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith.

### Swyddogaethau a manteision sail dystiolaeth gadarn

Drwy ganolbwyntio ar dystiolaeth wrth lunio cynlluniau integredig unigol, yn enwedig os yw'r sail dystiolaeth yn sensitif i'r materion dan sylw a'r camau a gymerir i'w lliniaru, bydd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gallu cael eu llywio gan y dystiolaeth a bod yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid. Yn fwy penodol, byddai manteision sylweddol yn codi, er enghraifft, drwy'r canlynol:

- cael mwy o gyd-ddealltwriaeth o'r cyd-destun lleol drwy bennu llinellau sylfaen a thueddiadau hanesyddol, a thrwy'r gallu i fonitro newid yn erbyn y llinellau sylfaen hynny;
- edrych y tu hwnt i brif fesurau a dangosyddion er mwyn ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o faterion e.e. drwy wneud defnydd o waith ymchwil ac adroddiadau gwerthuso perthnasol;
- ystyried sut ac i ba raddau y mae gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau ar gyfer y boblogaeth ac ar gyfer y sector cyhoeddus;
- mesur maint y dylanwad sydd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r partneriaid cyfansoddol ar broblemau penodol a'r graddau y maent yn atebol amdanynt, fel ffordd o flaenoriaethu a sicrhau'r effaith fwyaf posibl;

- meithrin dealltwriaeth well o berfformiad a meysydd lle y mae angen gwella, drwy brosesau monitro a gwerthuso;
- defnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), os yw'n briodol, er mwyn hwyluso trefniadau i rannu gwybodaeth bersonol rhwng partneriaid;
- adnabod risgiau, problemau a chyfyngiadau e.e. y risg o orfuddsoddi mewn dulliau gweithredu sydd heb eu profi neu sy'n ddiffygiol, yn ogystal â chyfleoedd.

### Dadansoddi a defnyddio tystiolaeth

Er mwyn sicrhau'r manteision posibl sydd wedi'u disgrifio uchod, bydd angen i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gael y gwerth mwyaf posibl o'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt, drwy ofyn y cwestiynau cywir wrth ystyried y dystiolaeth honno a threfnu eu dadansoddiadau fel eu bod yn ateb y cwestiynau hynny. Ymhlith y mathau o weithgarwch a fyddai ynghlwm wrth hyn y mae:

- mabwysiadu methodolegau sy'n seiliedig ar ganlyniadau (e.e. Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau a'r mathau gwahanol ohono) sy'n ceisio dangos achosiaeth ac atebolrwydd;
- haenu data, lle y bo'n ymarferol, yn gategorïau perthnasol (e.e. grwpiau cymdeithasol sy'n agored i niwed, grwpiau oedran, grwpiau lleiafrifoedd ethnig) er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r unigolion sy'n profi effaith problemau cymdeithasol penodol;
- sicrhau ar gyfer yr ardal gyfan fod anghenion y grwpiau sy'n destun deddfwriaeth cydraddoldeb wedi cael eu nodi'n glir, fel y gellir cymryd camau priodol sy'n cwmpasu'r gymuned gyfan;
- dadansoddi tystiolaeth yn ofodol (ac mor fanwl â phosibl), er mwyn meithrin dealltwriaeth o ble ac i ba raddau y mae problemau cymdeithasol wedi'u crynhoi neu wedi'u gwasgaru ar draws cymdogaethau;
- buddsoddi amser i ddatblygu fframweithiau gwerthuso trylwyr a fydd yn asesu effeithiolrwydd ac effaith neu'n cyfrannu at wneud hynny o leiaf;

- addasu neu ehangu’r prosesau presennol ar gyfer casglu data a thystiolaeth er mwyn diwallu angen y Bwrdd Gwasanaethau Lleol am dystiolaeth yn well, h.y. casglu’r wybodaeth sy’n berthnasol a rhesymoli’r wybodaeth nad yw’n berthnasol;
- defnyddio dull gwerthuso-meta ac adolygiadau o dystiolaeth wrth ddechrau ystyried mentrau a dulliau gweithredu newydd;
- manteisio ar gyfleoedd i arloesi, e.e. ymchwilio i gysylltiadau data;
- chwilio am yr arferion gorau a dysgu ohonynt.

**Asesiad Strategol o Anghenion**

Disgwylir i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynnal asesiad strategol o anghenion a fydd yn disodli’r asesiadau unigol o anghenion a gynhaliwyd o’r blaen ar gyfer cynlluniau penodol. Dylai’r broses hon fod yn un barhaus a deinamig ac nid yn gipolwg achlysurol ar y data.

Dylai’r broses asesu anghenion fod yn un sy’n galluogi’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaid cynllunio i wneud y canlynol:

1) rhannu’r wybodaeth a gasglwyd yn yr asesiad strategol o anghenion;
2) segmentu data am ‘angen’ ar lefel cymdogaeth;
3) pennu set glir o flaenoriaethau;
4) llywio’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau, yn enwedig gwaith comisiynu strategol ar y cyd yn lleol, yn rhanbarthol neu’n genedlaethol;
5) asesu effaith mentrau dros amser a nodi’r hyn sy’n gweithio’n dda;
6) monitro anghenion newidiol y boblogaeth leol yn barhaus.

Caiff partneriaid benderfynu addasu fframwaith asesu sy’n bodoli eisoes, e.e. y Fframwaith Asesiad Teulu ar y Cyd (JAFF) neu CAF (Fframwaith Asesu Cyffredin) neu greu un newydd.

**Ffynonellau tystiolaeth eraill**

Er bod partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn dal neu'n gallu cael gafael ar dystiolaeth amrywiol a helaeth ac yn gwybod yn fanwl am ei therfynau a sut i'w defnyddio, mae ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth sydd hefyd yn ddefnyddiol ac yn berthnasol, sef:

- Ystadegau Gwladol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru;
- Data o systemau rheoli perfformiad e.e. Ffynnon, InfoBase;
- Ffynonellau data gweinyddol e.e. systemau budd-daliadau;
- Gwybodaeth o arolygon perthnasol e.e. paneli dinasyddion, holiaduron defnyddwyr gwasanaethau, arolygon cenedlaethol;
- Adroddiadau arolygu ac archwilio;
- Adroddiadau Blynyddol e.e. gan Gomisiynwyr Plant a Phobl Hŷn, Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus;
- Gwerthusiadau o brosiectau, rhaglenni a gweithgareddau, er mwyn ystyried a ellir cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd;
- Tystiolaeth o'r arfer gorau wrth gynllunio gwasanaethau'n effeithiol o ffrwd waith Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed y Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Ymchwil academaidd empeiraidd;
- Storfeydd data sy'n bodoli eisoes e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru;
- Gwybodaeth ansoddol fanwl o gyfweliadau, grwpiau ffocws, etc;
- Allbynnau o ymchwil i deithiau cwsmeriaid neu ymchwil gyfranogol e.e. dulliau Kafka;
- Tystiolaeth anecdotaidd (os nad oes unrhyw beth mwy cadarn ar gael a chan arfer gofal wrth ei defnyddio).
- Fforymau Ieuenctid Lleol

**Yr heriau**

Bydd Byrddau Gwasanaethau Lleol yn wynebu heriau wrth wireddu'r weledigaeth sydd wedi'i disgrifio yma, nid yn unig o ran darparu adnoddau ac ystyriaethau technegol, ond hefyd o ran diwylliant sefydliadol a sut y gall Byrddau Gwasanaethau Lleol feithrin yr agwedd a'r ymrwymiad cywir i ganolbwyntio'n fwy ar dystiolaeth. Mae rhai ystyriaethau pwysig ynghlwm wrth hyn:

1. Sicrhau bod strategaeth wybodaeth effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yr adnoddau y mae arno eu hangen;

2. Nodi bylchau o ran sgiliau a gwybodaeth yn yr adnoddau dadansoddi presennol a chau'r bylchau hynny (er enghraifft, mae methodolegau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn gofyn am sgiliau a gwybodaeth benodol i'w gweithredu'n effeithiol);

3. Sicrhau bod blaenoriaethau corfforaethol (yn y sefydliadau sy'n bartneriaid) yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, fel bod modd dosbarthu adnoddau dadansoddi'n hyblyg;

4. Yr angen i weithio ar draws ffiniau sefydliadol a gweinyddol, a allai olygu bod:

    - un Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu grŵp bach o fyrddau'n gwneud gwaith dadansoddi ar gyfer Cymru gyfan;
    - 'canolfannau arbenigedd' bach yn ffurfio ar sail gwaith gwerthuso neu gynllunio sy'n seiliedig ar ganlyniadau;
    - rhwydwaith ar gyfer ymarferwyr tystiolaeth arweiniol mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cael ei hwyluso neu ei noddi gan Lywodraeth Cymru;
    - gwaith gwerthuso neu waith dadansoddi arall yn cael ei gomisiynu ar y cyd er mwyn cael y gwerth gorau am arian a lleihau costau'n lleol.

5. Yr angen i Fyrddau Gwasanaethau Lleol feithrin cysylltiadau cryfach â dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a fydd

yn creu cyfleoedd i ddylanwadu ar flaenoriaethau dadansoddi a manteisio ar y cyfleoedd lleol a geir mewn gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn genedlaethol.

## PENNOD 5:  EGWYDDORION CYNLLUNIO INTEGREDIG

### Cyflwyniad

Mae nifer o egwyddorion neu themâu'n sail i waith cynllunio integredig. Rhaid ymgorffori'r egwyddorion hyn wrth gynllunio, datblygu a gweithredu'r cynllun integredig unigol er mwyn sicrhau ansawdd.

### Datblygu Cynaliadwy

Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy (Mai 2012)[10]. Mae'r papur ymgynghori'n egluro'n fwy manwl beth y mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu fel prif egwyddor drefniadol a beth y gallai ei olygu fel dyletswydd ar sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Mae datblygu cynaliadwy yn gysyniad cyffredinol sy'n canolbwyntio ar yr elfennau sy'n gwella ansawdd bywydau pobl, gan gynnwys iechyd, lles materol, cyflogaeth, hunanwireddu a chysylltiadau cymunedol a chymdeithasol. Dylai datblygu cynaliadwy wella lles dinasyddion yn y tymor hir.  Mae'n gofyn am fuddsoddi sy'n sicrhau manteision mwy sylweddol yn y tymor hwy ar draul manteision tymor byrrach ac mae'n gofyn am ddefnyddio tystiolaeth yn drylwyr er mwyn cyflawni cymaint â phosibl gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae cynllunio integredig yn un enghraifft o ddull o ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer pobl a chymunedau. Mae'n golygu sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt drwy ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon, waeth beth fo'r rhwystrau sefydliadol a daearyddol, drwy wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar fesurau ataliol / ymyrraeth gynnar mewn meysydd fel lles, tlodi, iechyd, cyfiawnder troseddol, polisi teuluol, addysg, yr amgylchedd, etc;
- ymdrin â methiant yn gynnar ac yn effeithiol, am fod costau ac effeithiau hirdymor yn gysylltiedig â hyn;

[10] http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdbill/?skip=1&lang=cy

- integreiddio rhwng darparwyr gwasanaethau ac ymdrin â phrosesau pontio rhwng darparwyr gwasanaethau yn well.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus wneud y canlynol:

1. dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
3. meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru bennu amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ymgysylltu'n eang ar yr agweddau hyn ac agweddau eraill ar eu gwaith, a chasglu a dadansoddi data cydraddoldeb sy'n cyfrannu at ei asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a'r gwaith o bennu amcanion.

Mae'n hanfodol bod cynlluniau integredig unigol yn cynnwys – fel rhan o'u hasesiadau o anghenion – asesiadau a data ar sail y grwpiau sy'n cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gredo – gan gynnwys diffyg credo
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Rhyw

- Cyfeiriadedd rhywiol

Bydd hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth o anghenion y grwpiau hyn, y bydd llawer ohonynt wedi'u hymyleiddio, ac o'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau lle canolog i'r Confensiwn a hawliau plant yn ei holl waith ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i "barhau i ddefnyddio'r Saith Nod Craidd[11] fel y fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc." Byddwn yn parhau i ddatblygu deddfwriaeth gan ddal sylw ar CCUHP, gan adeiladu ar sail arfer a sefydlwyd ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Cyflawnwyd llawer o waith pwysig yn y degawd diwethaf i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc wedi'u cydnabod a bod gwasanaethau priodol wedi'u darparu, a bod gwrandawiad i'w llais a pharch i'w hawliau. Dylai'r cynllun integredig unigol adeiladu ar sail y gwaith hwn yn fwriadus, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan gymryd CCUHP yn ddatganiad o egwyddorion sylfaenol ar gyfer y canlyniadau hyn.

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan ac i leisio eu barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Hawl alluogi yw hon i blant a phobl ifanc gael mynediad i'r holl hawliau eraill yn y CCUHP. Mae'n ddyletswydd erbyn hyn ar yr awdurdodau lleol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc. Cyhoeddir canllawiau statudol ar hyn yn Atodiad B.

**Yr Iaith Gymraeg**

[11] 1. cael dechrau teg mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol; 2. cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu, gan gynnwys dysgu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol; 3. mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio; 4. cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol; 5. cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod; 6. cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; 7. osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Wrth baratoi a chyflawni eu cynllun integredig unigol, rhaid i aelodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru.

Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg wrth gynnal y dadansoddiad strategol o anghenion ar gyfer y cynllun integredig unigol ac, os yw canlyniadau penodol wedi'u nodi'n flaenoriaethau e.e. diogelu'r iaith neu sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau dwyieithog i ddiwallu anghenion lleol, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun integredig unigol.

**Ymgysylltu â Dinasyddion**

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a'r Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[12] wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a grwpiau sy'n cynnwys aelodau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector fel Bwrdd Cynghori Cyfranogaeth Cymru a Gweithgor Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc[13] hefyd wedi cael eu datblygu a'u lansio gan Lywodraeth Cymru. Dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol fabwysiadu'r egwyddorion a safonnau hyn wrth ymgysylltu pan fyddant yn ymgynghori ar lunio'r cynllun integredig unigol ac yn asesu cynnydd ar gyflawni canlyniadau'r cynllun.

Mae hyn yn angenrheidiol ond nid yw'n ddigonol. Wrth ymgysylltu â dinasyddion, dylid gwneud mwy na'u cynnwys mewn gwaith cynllunio cymunedol. Gall llais y dinesydd fod yn adnodd pwerus ar gyfer deall lle y mae systemau'n methu, a lle y mae diffyg cydgysylltu rhwng darparwyr gwasanaethau yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau; ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau ar sail anghenion unigolion, ac ar gyfer craffu ar effeithiolrwydd gwasanaethau.

Ni chafwyd digon o ddefnydd o lais dinasyddion a chymunedau er mwyn ysgogi gwelliant. Wrth lunio eu strategaethau gwybodaeth ac ymgysylltu, ac ymgymryd ag Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau, dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol ganolbwyntio'n fwriadus ar gryfhau llais y dinesydd mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i ymgynghori at weithgarwch ymgysylltu dwys iawn a gaiff effaith sylweddol ar y prif

[12] http://www.participationcymru.org.uk/principles/practitioners-manual-for-public-engagement

[13] Llywodraeth Cymru | Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

faterion a blaenoriaethau. Dylai hyn gynnwys camau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau sy’n aml yn anodd eu cyrraedd, a sicrhau eu bod yn cymryd rhan. Ymhlith y rhain y mae plant, pobl ifanc a theuluoedd; oedolion sy’n agored i niwed e.e. y rheini sy’n dioddef trais domestig neu’r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl; aelodau o’r lluoedd arfog, cyn-filwyr a’u teuluoedd; a henoed eiddil eu meddwl. Dylid manteisio ar arbenigedd y trydydd sector i wneud hyn.

**Cynlluniau Statudol**

| **Deddfwriaeth** | **Dyletswydd** | **Gofynion y Cynllun** | **Partneriaid** |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth Gymunedol** | | | |
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | Mae Rhan 2 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gychwyn cynllunio cymunedol ar gyfer eu hardal ac, ar ôl gwneud hynny, ei gynnal, ei hwyluso a chymryd rhan ynddo.<br><br>Ei diffiniad o gynllunio cymunedol yw'r broses y mae'r awdurdod a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn ei defnyddio i—<br><br>(a) pennu amcanion hirdymor i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal;<br><br>(b) pennu amcanion hirdymor mewn cysylltiad â'r ardal ar gyfer cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig;<br><br>(c) pennu camau gweithredu i'w cyflawni a swyddogaethau i'w harfer gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol, | Y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y strategaeth gymunedol yw—<br><br>(a) disgrifiad o amcanion y strategaeth gymunedol y mae'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol eu gosod ar ôl ystyried y consensws a gafwyd ar hyn â'i bartneriaid cynllunio;<br><br>(b) disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd a'r swyddogaethau sydd i'w harfer er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.<br><br>Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol adolygu'r Strategaeth bob 4 blynedd o leiaf ar ôl ei chyhoeddi.<br><br>Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio fonitro'r cynnydd ar gyflawni'r amcanion, ac effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r swyddogaethau a arferwyd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. | Mae partneriaethau'n anstatudol. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i "bartneriaid cynllunio cymunedol" gymryd rhan wrth baratoi'r cynllun, a rhaid iddynt helpu'r awdurdod lleol yn y broses gynllunio.<br><br>Ar hyn o bryd, y partneriaid cynllunio cymunedol yw:<br><br>a) cynghorau cymuned ar gyfer cymunedau y mae unrhyw ran ohonynt o fewn ardal yr awdurdod lleol;<br>(b) awdurdodau tân ac achub Cymru ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;<br>(c) Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;<br>(d) Ymddiriedolaethau GIG sydd wedi'u dynodi mewn cysylltiad ag ardal yr awdurdod drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru;<br>(e) awdurdodau Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran o'u hardal o fewn ardal yr awdurdod lleol;<br>(f) awdurdodau'r heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | er mwyn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi uchod. | | ardal yr awdurdod lleol;<br>(g) prif gwnstabliaid yr heddluoedd ar gyfer ardal heddlu y cyfeirir ati ym mharagraff (f).<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u gwneud i roi cyfle i'r personau canlynol fynegi eu barn, a chael ystyriaeth i'r farn honno mewn cysylltiad â chynllunio cymunedol, a chynhyrchu ac adolygu'r strategaeth:<br><br>(a) personau sy'n preswylio yn ardal yr awdurdod lleol;<br>(b) personau nad ydynt yn preswylio yn yr ardal ond sy'n cael gwasanaethau sydd wedi'u darparu gan yr awdurdod neu un o'r partneriaid cynllunio cymunedol;<br>(c) cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol;<br>(d) cynrychiolwyr personau sy'n ymgymryd â busnes yn ardal yr awdurdod;<br>(e) personau eraill sydd â buddiant, ym marn yr awdurdod, mewn gwella lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal. |
| **Cynllun Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn, Gostwng Troseddu a Chamddefnyddio Sylweddau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007;<br><br>Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007. | Mae adran 6 o Ddeddf 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyfrifol penodedig i lunio a gweithredu:<br><br>a) strategaeth i ostwng troseddu ac anhrefn;<br><br>(b) strategaeth i ymladd y camddefnydd o gyffuriau, alcohol a sylweddau eraill;<br><br>(c) strategaeth i ostwng aildroseddu.<br><br>Mae rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch llunio a gweithredu'r strategaethau hyn. Mae'r strategaethau'n sail i gynllun partneriaeth.<br><br>Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu grŵp strategaeth ac iddo'r swyddogaeth o baratoi asesiadau strategol, a pharatoi a gweithredu cynllun partneriaeth (sy'n cynnwys yr asesiadau strategol a'r strategaethau). Mae'r rheoliadau hefyd yn creu gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn | Y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cynllun partneriaeth yw:<br><br>(a) y strategaethau ar gyfer gostwng troseddu ac anhrefn yn yr ardal, gostwng aildroseddu yn yr ardal, ac ymladd camddefnydd o sylweddau yn yr ardal;<br>(b) y blaenoriaethau sydd wedi'u pennu yn yr asesiadau strategol;<br>(c) y camau y mae'r grŵp strategaeth yn credu bod angen i'r awdurdodau cyfrifol eu cymryd i weithredu'r strategaethau a chyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd;<br>(d) barn y grŵp strategaeth am y modd y dylai'r awdurdodau cyfrifol ddyrannu a defnyddio eu hadnoddau i weithredu'r strategaethau a chyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd;<br>(e) y camau y mae'n rhaid i bob un o'r awdurdodau cyfrifol eu cymryd i fesur ei lwyddiant wrth weithredu'r strategaethau a chyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd;<br>(f) y camau y mae'r grŵp strategaeth yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei ddyletswyddau o ran cynnwys y gymuned.<br><br>Rhaid paratoi asesiadau strategol bob | Mae'r grwpiau strategaeth yn bartneriaethau statudol.<br><br>Mae'r grŵp strategaeth i gynnwys dau neu ragor o bersonau sydd wedi'u penodi gan un neu ragor o'r awdurdodau cyfrifol yn ei ardal.<br><br>Yr awdurdodau cyfrifol penodedig mewn cysylltiad â phob ardal llywodraeth leol yw:<br><br>(a) y cyngor ar gyfer yr ardal;<br>(b) darparwyr gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn yr ardal (sydd wedi'u pennu o dan adran 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn awdurdodau cyfrifol);<br>(c) prif swyddog yr heddlu y mae unrhyw ran o'i ardal heddlu o fewn yr ardal;<br>(d) awdurdodau tân ac achub y mae unrhyw ran o'u hardal o fewn yr ardal;<br>(e) Byrddau Iechyd Lleol y mae'r cyfan neu unrhyw ran o'u hardal o fewn yr ardal.<br><br><u>Ni fydd</u> Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn awdurdodau cyfrifol.<br><br>Yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, wrth lunio a gweithredu eu cynlluniau partneriaeth, rhaid i'r awdurdodau cyfrifol gydweithredu â'r canlynol— |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a rhwng yr awdurdodau cyfrifol.<br><br>Wrth lunio a gweithredu eu cynlluniau partneriaeth, bydd hefyd yn ofynnol i'r awdurdodau cyfrifol ddal sylw ar amcanion yr heddlu a throseddu sydd wedi'u nodi yn y cynllun heddlu a throseddu ar gyfer yr ardal heddlu sy'n cydffinio â'r ardal llywodraeth leol neu'n ei chynnwys. | blwyddyn, a rhaid ystyried y rhain wrth ailedrych ar y cynllun partneriaeth (sy'n cynnwys y tair strategaeth statudol). Rhaid adolygu'r cynllun partneriaeth bob blwyddyn hefyd. | (a) y bwrdd prawf lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn yr ardal llywodraeth leol;<br>(b) darparwyr gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn yr ardal (sydd wedi'u pennu o dan adran 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn gyrff cydweithredu);<br>(c) unrhyw bersonau eraill sydd wedi'u rhagnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i grwpiau strategaeth wneud trefniadau i ofyn am farn y personau a chyrff sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal wrth baratoi'r asesiadau strategol ac wrth baratoi a gweithredu'r cynlluniau partneriaeth. |
| **Cynllun Plant a Phobl Ifanc** | | | |

<table>
<tr>
<td>Deddf Plant 2004</td>
<td>Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu rhwng:<br><br>(a) yr awdurdod;<br><br>(b) pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod;<br><br>(c) y cyfryw bersonau neu gyrff eraill y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn briodol,<br><br>er mwyn gwella lles y plant yn ardal yr awdurdod. Mae dyletswydd ar y "partneriaid perthnasol" hyn yn eu tro i gydweithredu â'r awdurdod lleol.<br><br>Mae adran 27 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol ac aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd benodi swyddog arweiniol ac aelod Bwrdd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, a rhaid i'r</td>
<td>Mae adran 26 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys y wybodaeth ganlynol yn y cynlluniau:<br><br>(a) manylion y trefniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud:<br>• i gydweithredu â'r partneriaid perthnasol a chyrff eraill sydd wedi'u pennu;<br>• i wella lles y plant yn eu hardal;<br><br>(b) eu strategaeth o dan adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (i ddileu tlodi plant);<br><br>(c) eu cynllun ar gyfer yr ardal o dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (sy'n pennu'r driniaeth iechyd meddwl y trefnir iddi fod ar gael yn eu hardal ac sy'n nodi sut maent yn bwriadu sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth iechyd meddwl yn eu hardal).<br><br>Yn ogystal â hyn, caiff awdurdodau lleol yng Nghymru gynnwys yn eu cynlluniau:<br><br>(a) strategaeth neu gynigion unrhyw awdurdod sy'n bartner iddynt mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc;</td>
<td>Mae unrhyw bartneriaethau a gaiff eu ffurfio i lunio a gweithredu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn anstatudol. Er hynny, mae eu gweithgareddau mewn cysylltiad ag addysg a gwasanaethau ieuenctid yn cael eu harolygu gan Estyn. (Y partneriaethau hyn yw'r unig rai anstatudol sy'n cael eu harolygu fel hyn.)<br><br>Partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol yw:<br><br>(a) awdurdodau'r heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal llywodraeth leol;<br>(b) y gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod;<br>(c) y timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;<br>(d) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;<br>(e) yr ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;<br>(f) Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag addysg bellach ac addysg chweched dosbarth yng Nghymru.<br><br>Mae rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r personau canlynol wrth lunio ei gynllun:</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007<br><br>Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | ymddiriedolaeth GIG benodi cyfarwyddwr gweithredol arweiniol a chyfarwyddwr anweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Cyfrifoldeb y personau hyn yw arolygu swyddogaethau eu cyrff mewn cysylltiad â chynllunio a gwneud trefniadau i wella lles plant yn eu hardal.<br><br>Mae rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi strategaeth y partneriaid ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc 0-25 oed.<br><br>Mae adran 2 o Fesur 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd dyletswydd yr awdurdod lleol yn hyn o beth wedi'i chyflawni os yw'r Strategaeth Tlodi Plant wedi'i chynnwys yn rhan o'r | (b) strategaeth unrhyw awdurdod sy'n bartner iddynt i gyfrannu at ddileu tlodi plant.<br><br>Bydd Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn cael effaith am gyfnod o 3 blynedd (rheoliad 4) a rhaid eu hadolygu bob blwyddyn (rheoliad 8). | (a) y partneriaid perthnasol;<br>(b) y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer yr ardal;<br>(c) Gweinidogion Cymru;<br>(d) pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;<br>(e) pennaeth pob coleg addysg bellach yn ardal yr awdurdod;<br>(f) yr awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer unrhyw un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig a gynhelir gan yr awdurdod;<br>(g) Comisiynydd Plant Cymru;<br>(h) Bwrdd yr Iaith Gymraeg;<br>(i) yr awdurdod cynllunio lleol;<br>(j) awdurdod Parc Cenedlaethol;<br>(k) aelodau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a phobl sy'n eu cynrychioli;<br>(l) unrhyw is-grŵp i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;<br>(m) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;<br>(n) y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol;<br>(o) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>(p) Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf<br>(q) y Bartneriaeth Strategaeth Gymunedol;<br>(r) y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;<br>(s) y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynllun a gyhoeddodd o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. Yn ogystal â hyn, gellir cynnwys strategaeth partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol i gyfrannu at ddileu tlodi plant yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. | . | (t) sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn Gymraeg;<br>(u) y Gwasanaeth Tân ac Achub;<br>(v) tîm iechyd cyhoeddus lleol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol;<br>(w) darparwyr addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith;<br>(x) Cynghorau ysgol;<br>(y) fforymau ieuenctid lleol;<br>(z) Estyn;<br>(aa) cyrff gwirfoddol;<br>(bb) y cyfryw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod.<br><br>Rhaid ymgynghori ar y cynllun am gyfnod o 12 wythnos o leiaf. |
| **Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** | | | |
| Deddf y GIG (Cymru) 2006 | Mae adran 40 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol a phob Bwrdd Iechyd Lleol, y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol (y "cyrff cyfrifol"), gydbaratoi a chydgyflawni strategaeth iechyd a lles ar gyfer ardal yr awdurdod lleol hwnnw.<br><br>Mae rheoliad 4 o reoliadau 2003 | Mae rheoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth ymdrin â'r materion canlynol:<br><br>(a) cyflwr iechyd a lles y boblogaeth leol;<br>(b) anghenion iechyd a lles y boblogaeth leol;<br>(c) y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau iechyd a lles i'r boblogaeth leol;<br>(d) bylchau neu ddiffygion yn y | Bydd unrhyw bartneriaethau a gaiff eu ffurfio er mwyn llunio a gweithredu'r strategaeth iechyd a lles yn anstatudol.<br><br>Mae rheoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol gydweithredu â'r personau canlynol wrth lunio ac adolygu eu strategaethau, ac wrth gynnal eu hasesiadau o iechyd a lles:<br><br>(a) yr Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau i'r boblogaeth leol; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2003 | yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol gynnal asesiad o anghenion iechyd a lles y boblogaeth leol, a rhaid i'r cyrff cyfrifol ddal sylw ar yr asesiad hwn o anghenion wrth baratoi'r strategaeth. Y diffiniad o'r boblogaeth leol yn y rheoliadau yw aelodau o'r cyhoedd sy'n preswylio fel arfer neu sy'n bresennol yn ardal neu ardaloedd y cyrff cyfrifol.<br><br>Mae rheoliad 7 o reoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol ddal sylw ar y cynlluniau canlynol a'u cydgysylltu ac integreiddio, wrth lunio eu strategaethau iechyd a lles:<br><br>(a) y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc;<br>(b) y cynllun gwasanaethau plant sy'n ofynnol o dan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 (sy'n disgrifio cymorth yr awdurdod lleol i blant a theuluoedd);<br>(c) y cynllun ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymunedol o dan adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a | ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a lles i'r boblogaeth leol;<br>(e) y peryglon i iechyd a lles y boblogaeth leol;<br>(f) ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth leol;<br>(g) anghenion iechyd a lles disgwyliedig y boblogaeth leol drwy gydol cyfnod gweithredu'r strategaeth;<br>(h) y gwelliant yn iechyd a lles y boblogaeth leol;<br>(i) y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a lles a fydd yn ofynnol drwy gydol cyfnod gweithredu'r strategaeth i fodloni anghenion iechyd a lles y boblogaeth leol, ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyfryw wasanaethau;<br>(j) y dull o gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau iechyd a lles;<br>(k) yr adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a fydd yn ofynnol i weithredu'r strategaeth;<br>(l) unrhyw gyfarwyddiadau a chanllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.<br><br>Mae rheoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaethau fod yn weithredol am gyfnod o 3 blynedd. | (b) y Cyngor neu Gynghorau Iechyd Cymuned sy'n cynrychioli'r boblogaeth leol;<br>(c) y Cyngor neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n cefnogi cyrff gwirfoddol yn ardal neu ardaloedd y cyrff cyfrifol a, lle nad oes Cyngor o'r fath, y cyfryw gorff arall a allai gyflawni swyddogaethau sy'n debyg i'r rheini a gyflawnir gan Gyngor o'r fath;<br>(d) Gweinidogion Cymru;<br>(e) unrhyw sefydliad preifat, sefydliad busnes, sefydliad gwirfoddol neu sefydliad arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a lles i'r boblogaeth leol, neu sydd â buddiant yn hynny.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae rheoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol ymgynghori â'r personau canlynol ar eu strategaethau drafft:<br><br>(a) y boblogaeth leol;<br>(b) y cyrff cydweithredu;<br>(c) awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol eraill y mae'r cyrff cyfrifol yn rhannu un neu ragor o ffiniau cyffredin â hwy;<br>(d) y cyfryw bersonau neu sefydliadau eraill y mae'n ymddangos i'r cyrff cyfrifol eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'r strategaeth yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gofal Cymunedol 1990 (sy'n nodi cynllun yr awdurdod ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol);<br>(d) y cynllun i wella iechyd o dan adran 17 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (sy'n nodi'r strategaeth ar gyfer gwella iechyd y bobl y maent yn gyfrifol amdanynt a darparu gofal iechyd i'r bobl hynny). | Rhaid i'r cyrff cyfrifol eu hadolygu bob blwyddyn a rhaid iddynt gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru am yr adolygiadau hynny. | |

<u>Partneriaethau Statudol Eraill</u>

| Partneriaethau Statudol | Deddfwriaeth | Dyletswydd | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd (BICID) | Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010<br><br>Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012 | Mae adran 61 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu BICID.<br><br>Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn rheoliadau 2010.<br><br>Mae mwy o wybodaeth yn "Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd: Rheoliadau a Chanllawiau Statudol" am gyfrifoldebau'r BICID. | Rhaid i'r BICID gynnwys cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, neu ba bynnag gyfarwyddwr arall sy'n gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, a'r swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn y byrddau iechyd lleol.<br><br>Gall awdurdodau lleol benodi aelodau eraill i fwrdd gyda chydsyniad y byrddau iechyd lleol, a gellir sefydlu BICID ar gyfer mwy nag un awdurdod lleol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Lleol Diogelu Plant | Deddf Plant 2004<br><br>Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 | Mae adrannau 31-34 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant.<br><br>Mae swyddogaethau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi'u nodi yn rheoliadau 2006<br><br>Mae'r canllawiau yn "Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004" yn rhoi mwy o wybodaeth am Fyrddau Lleol Diogelu Plant. | Yn unol ag adran 31 o'r Ddeddf a rheoliadau 2006 sydd wedi'u gwneud o dani, rhaid cael cynrychiolydd i'r awdurdod ar y bwrdd (y mae'n rhaid iddo fod yn un ai cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, neu ba bynnag gyfarwyddwr arall sy'n gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc), ynghyd â chynrychiolwyr i bob un o bartneriaid yr awdurdod ar y bwrdd.<br><br>Y cynrychiolwyr i bartneriaid y bwrdd sy'n ofynnol yw: swyddog heddlu ar lefel arolygydd o leiaf; prif swyddog y bwrdd prawf lleol, neu swyddog sy'n uniongyrchol atebol iddo; prif weithredwr darparwr gwasanaethau prawf ar gyfer rheoli troseddwyr, neu swyddog sy'n uniongyrchol atebol iddo; rheolwr tîm neu ddirprwy reolwr tîm y tîm troseddau ieuenctid; swyddog arweiniol y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, neu swyddog sy'n uniongyrchol atebol iddo; ymarferydd meddygol cofrestredig a nyrs gofrestredig sydd â chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol; cyfarwyddwr gweithredol arweiniol yr ymddiriedolaeth GIG ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, neu swyddog sy'n uniongyrchol atebol iddo; llywodraethwr unrhyw ganolfan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyfforddi ddiogel yn yr ardal, y dirprwy lywodraethwr neu unigolyn ar radd uwch; a llywodraethwr unrhyw garchar yn yr ardal, y dirprwy lywodraethwr neu unigolyn ar radd uwch. |
| Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 | Mae adran 119 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu partneriaeth datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ac iddi'r diben o gydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth o addysg feithrin ar gyfer ardal yr awdurdod . | Nid yw Deddf 1998 yn rhoi rhestr o bartneriaid ond mae'n rhybuddio bod rhaid i'r awdurdod lleol ddal sylw ar unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru wrth sefydlu partneriaeth. |

Dyletswyddau Statudol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | Mae Adran 12 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud y cyfryw drefniadau ag y mae'n eu hystyried yn addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol allai effeithio arnynt, a chyhoeddi a diweddaru'r wybodaeth a'r trefniadau ar gyfer hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol a allai effeithio arnynt . | | **Adran 12** Mae partneriaid yn anstatudol ond caiff awdurdodau lleol eu hannog i weithio gyda Phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Lleol a phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn bodloni eu dyletswydd statudol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae **Adran 11** yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardal yn unol â'r rheoliadau. | | **Adran 11** Mae partneriaid yn anstatudol ond caiff awdurdodau lleol eu hannog i weithio gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys:-<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Sefydliadau trydydd sector<br>• Y sector preifat os yw'n briodol<br>• Grwpiau cymunedol<br>• Plant a'u teuluoedd |

**ATODIAD B**

**CANLLAWIAU STATUDOL – CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Maent yn berthnasol i awdurdodau lleol o ran y cynllun integredig unigol, a phryd bynnag y maent yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hybu cyfranogiad gan plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae Adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol *yn gwneud y cyfryw drefniadau y maent yn eu hystyried sy'n addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdodau a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau a diweddaru'r wybodaeth a gyhoeddir*. Gellir cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy strategaeth ymgysylltu'r cynllun integredig unigol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n nodi'r hawliau y gall pob plentyn a pherson ifanc ddisgwyl eu mwynhau, pa le bynnag y maent neu bwy bynnag ydynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu hyn drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 1 Mai 2012.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth adolygu eu polisïau ac wrth wneud penderfyniadau am bolisïau neu ddeddfwriaeth arfaethedig. Caiff hyn ei gryfhau o 1 Mai 2014 ymlaen, pan fydd ar Weinidogion Cymru ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau CCUHP pryd bynnag y byddant yn defnyddio unrhyw rai o'u pwerau neu eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae CCUHP yn cynnwys 54 erthygl, y mae 42 ohonynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Hawl alluogi yw erthygl 12 sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael pob un o'r hawliau eraill yn CCUHP. Yn ôl erthygl 12 mae gan bob un plentyn a pherson ifanc hawl i leisio'u barn ac i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Dyma sail y gwaith i hybu a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol. Mae CCUHP yn gymwys i blant a phobl ifanc o dan 18 oed, ond yng Nghymru mae pobl ifanc yn cynnwys y rhai hynny hyd at 25 oed, ac mae disgwyl i awdurdodau lleol ystyried cymhwyso eu trefniadau er mwyn i'r bobl ifanc hyn gymryd rhan, lle y bo'n briodol.

Y Saith Nod Craidd yw'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent yn crynhoi'r CCUHP ac yn sail i benderfyniadau ar flaenoriaethau ac amcanion yng Nghymru, ac fe ddylent fod yn sail i benderfyniadau ar strategaeth a darparu gwasanaethau yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn benodol yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc, ac mae'n

datgan y dylid gwrando ar blentyn a pherson ifanc, eu trin â pharch, a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.

I gael gwybod mwy am CCUHP - ewch i www.uncrcletsgetitright.co.uk

**Y Gofynion**

Er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i'r awdurdodau lleol gydweithio â phartneriaid perthnasol i:

- hybu a hwyluso cyfanogiad plant a phobl ifanc yng nghyd-destun eang hawliau plant a phobl ifanc fel rhan o'u polisïau, eu gwasanaethau ac wrth geisio ymgysylltu'n fwy â dinasyddion;

- ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau; Dylai *strategaeth ymgysylltu'r* Cynllun Integredig Unigol amlinellu sut yr eir i'r afael â hyn a sut y dangosir tystiolaeth ohono drwy adolygu sut y caiff hyn ei weithredu;

- cyhoeddi gwybodaeth am drefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod yn adroddiad cyhoeddus blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gynnydd, yn ogystal â defnyddio cyfryngau sy'n hygyrch i blant ac i bobl ifanc, megis gwefannau perthnasol;

- sicrhau bod amrediad o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol sydd ei hangen yn cael eu darparu, er mwyn hybu cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc allu cymryd rhan fel unigolion ddod yn rhan anatod o wasanaethau beunyddiol, yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol, megis fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, sy'n agored i niwed neu sydd â diddordeb arbennig mewn pwnc penodol. Mae'r fforymau a'r grwpiau hyn yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi pobl ifanc i ddweud eu dweud, ac wrth sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'w hawliau, fel y'u hamlinellir yn CCUHP;

- sefydlu Fforwm Ieuenctid Sirol i fod yn gorff cynrychiadol o bobl ifanc a allai fod yn fodd o gyfleu safbwyntiau pobl ifanc ar draws eu hawdurdodau lleol, ac arddel y safbwyntiau ger bron cyrff lleol a chenedlaethol sy'n gwneud penderfyniadau. Dylent anelu at fod mor gynhwysol ag sy'n bosibl o ran gwasgariad daearyddol, oedran, rhyw, ac o ran cynrychioli anghenion arbenigol, a mwy o bobl ifanc sydd ar y cyrion. Er mwyn i Fforymau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan yr awdurdodau lleol. Dylai'r awdurdodau lleol ystyried pa gefnogaeth sydd ei hangen i wneud hynny. Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu mewn modd effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhain yn http://participationhub.org.uk;;

- ystyried y ffordd orau o gefnogi hyfforddiant a hybu cymryd rhan - dylai hyn gael ei hintegreiddio â gwaith ehangach sy'n ymwneud â datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP.

**Hybu** - dylai awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod cynifer o blant a phobl ifanc ag sy'n bosibl yn ymwybodol o'u hawliau i gael eu clywed a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am fanteision cymryd rhan, a hefyd roi gwybod am enghreifftiau o arferion da, er enghraifft drwy wefannau a chylchlythyron, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol.

**Perthnasedd** - dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall, ateb eu cwestiynau a bodloni eu hanghenion, ynghyd â bod yn gywir, yn gyfoes ac yn hygyrch o ran iaith a diwyg.

**Ymgysylltu** - dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gallai plant a phobl ifanc fynd ati eu hunain i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymryd rhan. Mae'r hawl i gael lleisio'u barn ac i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn gymwys i unigolion, ac er y byddai'n well gan nifer o blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn grŵp, dylid ystyried sut y gall unigolion fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio.

## Gweithio gyda phartneriaid

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddir o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn ymwneud â'r awdurdodau lleol yn unig, hoffem eu hannog i gydweithio'n agos â phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn modd amlasiantaethol yn arfer da, ac mae Deddf Plant 2004, Adran 25, yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdodau lleol i hybu cydweithredu, gyda golwg ar wella lles plant yn yr ardal.

Mae nifer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc, ac at brif ffrydio hynny i'w meysydd gwaith ac i'w trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gellir dod o hyd i rai o'r rhain yn www.pupilvoicewales.org.uk**.**

## Beth sy'n digwydd nawr?

- Dylai strategaeth ymgysylltu'r Cynllun Integredig Unigol amlinellu sut y mae annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan wedi'i ymgorffori i bob agwedd ar gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau.

- Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi eu "trefniadau ar gyfer hybu a hwyluso cyfranogiad" yn strategaeth ymgysylltu'r Cynllun Integredig Unigol, gan

ddefnyddio cyfryngau hefyd y mae'n hawdd i blant eu defnyddio, megis gwefannau perthnasol.

- Dylai adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynnwys crynodeb o sut y mae'r dyletswyddau statudol wedi'u bodloni, a sut y gellir gwella arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc.

- Mae Cynlluniau Integredig Unigol yn cynnig tystiolaeth i Arolygiaethau ac i Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddant yn adolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gall Arolygiaethau a'r Swyddfa Archwilio adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau sy'n sail iddynt i ddangos pa mor effeithiol yw'r sefyllfa o ran cael plant i gymryd rhan, ymgysylltu â hwy, a gwrando arnynt.

Mae cwmpas y ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun integredig unigol. Mae'n bwysig bod cyfranogi'n dod yn rhan o bolisi ac arfer yr holl bartneriaid lleol. Dylai awdurdodau lleol gydweithio â phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogi'n cael ei hybu a'i hwyluso.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed, i ddweud eu dweud, a gallu cael cyfleoedd i chwarae rhan weithgar wrth wneud penderfyniadau, pa le bynnag y bônt – boed hynny yn yr ysgol, ar hyd y lle yn y gymuned, neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Mae nifer o enghreifftiau o arfer da, ac mae nifer sylweddol o'r rhain wedi mabwysiadu 'Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc' ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn modd ystyrlon ac effeithiol.

I gael rhagor o wybodaeth am arferion da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc i gymryd rhan, ewch i http://www.uncrcletsgetitright.co.uk . Hefyd, gellir cael hyd i wybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arferion da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru yn http://participationhub.org.uk.

Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd wrth annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan, a rhaid dal ati i gynnal y momentwm hwnnw.